## Tasg 1

# Tlodi yng Nghymru

**Cyn dechrau ar y gweithgareddau darllen, trafodwch: ‘Beth yw banc bwyd?’**

**Darllen**

1. Rhowch y wybodaeth yn y brawddegau yn y drefn y mae hi’n dod yn y gerdd, o 1 i 5.

| | |
|---|---|
| Mae un o’r bobl sy’n dod i’r banc bwyd wedi colli ei swydd ar ôl bod yn sâl. | |
| Mae’r banc bwyd yn cynnig help i bobl sydd mewn trafferth. | |
| Mae un person sydd â dwy swydd yn methu prynu bwyd i’r teulu. | |
| Mae rhai pobl yn teimlo’n wael eu bod nhw’n gorfod dod i fanc bwyd. | |
| Mae un person yn gorfod dewis rhwng bod yn gynnes a bwyta. | |

2. Beth yw ystyr ‘llwgu’?

Ticiwch **un**.

Methu prynu bwyd

Methu cael digon o fwyd i fyw

Cael gormod o fwyd

Methu dewis pa fwyd i’w fwyta

Gweiddi

3. Rhowch y llythyren gywir wrth y diffiniad cywir.

| | | |
|---|---|---|
| 1) cywilydd | | a) teimlad o fod heb ofn a phoen |
| | | |
| 2) cyson | | b) rhywun sy'n gweithio heb gael arian |
| | | |
| 3) gwirfoddolwr | | c) dau beth |
| | | |
| 4) cysur | | ch) teimlad o dristwch ac euogrwydd |
| | | |
| 5) deubeth | | d) aml, rheolaidd |

4. Pam gall rhai pobl fod yn teimlo'n 'llawn cywilydd' wrth ddod i'r banc bwyd y tro cyntaf?

5. Beth yw gobaith y gwirfoddolwr ar ddiwedd y gerdd?

6. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y gerdd:

| | | |
|---|---|---|
| fforddio | cywilydd | drws agored |
| y dewis diwethaf | cyfnod caled | |

7. Beth yw patrwm y gerdd? Cyfrwch y sillafau yn y llinellau a nodwch ble mae'r odl ym mhob pennill.

**Trafod**

1. ‘Pobl ddiog sy’n defnyddio banciau bwyd.’ Ydy’r gerdd yn cadarnhau neu’n gwrthod hyn? Rhowch enghreifftiau o’r gerdd.

2. Oes pobl yn casglu tuag at fanc bwyd yn eich ardal chi? Ble?

3. Pam mae mwy o bobl eisiau pecynnau bwyd argyfwng, yn eich barn chi?

4. Ydy hi’n beth da neu’n beth drwg mai *gwirfoddolwyr* yw llawer o’r bobl sy’n gweithio mewn banciau bwyd? Rhowch resymau am eich ateb.

5. Meddyliwch am dair dadl o blaid banciau bwyd. Oes dadleuon yn erbyn hefyd?

| O blaid banciau bwyd | Yn erbyn banciau bwyd |
|---|---|
| **1.** | **1.** |
| **2.** | **2.** |
| **3.** | **3.** |

**Ysgrifennu**

Ysgrifennwch ddarn byr yn y person cyntaf (*ymson*) o safbwynt person sy’n dibynnu ar fanc bwyd. Ceisiwch feddwl am y pwyntiau hyn:

- Pam mae’r person wedi dod i’r banc bwyd?
- Disgrifiwch y daith i’r banc bwyd. Ydy’r banc mewn lle cyfleus? Oes car gan y person?
- Sut mae’r person yn teimlo wrth fynd i mewn i’r banc bwyd am y tro cyntaf?
- Pa fath o bobl yw’r gwirfoddolwyr?
- Pa fath o fwyd sydd ar gael?
- Sut mae’r person yn teimlo wrth adael y banc bwyd?

**Mathemateg**

Sut mae gweithio allan faint o becynnau bwyd argyfwng gafodd eu rhoi yn 2014/2015? Dyma’r wybodaeth sydd gennych chi:

**Mae’r ffigurau dangos bod 1,109,309 pecyn bwyd argyfwng wedi’u rhoi i bobl yn 2015/16. Mae hyn 2% yn fwy nag yn 2014/15.**